

Ysgrifennu naratif

- MIRIAM** W, wnes i joio hwnna. Sgriptio da, doedd? Cadw ni ar bigau'r drain!
- JAC** Cath? Be ti'n neud?
Ti'n ysgrifennu stori?!
- CATH** Yndw, dwi 'di dechrau blog.
- MIRIAM** Waw – stori am be ydy hi?
- CATH** Un *sci-fi*, arswydus.
- JAC** Oer ... tywyll ... llygad ... llewygu.
- CATH** Wel?
- JAC** Ymmm ...
- CATH** Ond dim ond un person sydd wedi clicio'r botwm hoffi.

O, dwi newydd gael neges.
- MIRIAM** “Y peth gorau i'w wneud pan mae anifail yn sâl ydy ei roi lawr a'i gladdu, a dyna'n union ddylet ti ei wneud efo'r stori yma!” Aw!
- CATH** Ow. Wnewch chi ei darllen hi i weld pam fuodd o mor gas? Achos mae gen i drefn naratif da – dechrau, canol a diwedd, pwy, beth a pham. A byddwch yn onest!
- MIRIAM** “Roedd hi'n noson oer, dywyll yn y goedwig. Mae gan Catrin Jones (17 oed), un o saith o blant teulu tlawd, lleol, ofn, ac mae ei dannedd yn clecian yn ei phen fel castanets. Yn sydyn, clywodd sgrech brêcs a fflach o olau o'i blaen fel golau car heddlu, ond yn felyn ac nid yn las. Caeodd ei llygaid yn dynn.
- JAC** ‘Catrin, agora dy lygaid,’ galwodd llais main o gyfeiriad y golau. Mae Catrin yn agor un llygad ac yna'r llall. ‘O na!’ sgrechiodd Catrin wrth i fys gwyrdd fel pys slwtsh estyn am ei hwyneb. Rhedodd i'r coed duon yn sgrechian mewn ofn, cyn llewygu.”

Wel, mae'n wreiddiol. Ac mae gen ti lawer o gymariaethau.

MIRIAM

Oes, ac mae cymariaethau'n helpu i ychwanegu at naws ac awyrgylch y peth. Ond falle dylet ti fod yn fwy gofalus yn eu dewis nhw?

CATH

Awyrgylch *creepy*, *sci-fi* oedd gen i mewn golwg –

MIRIAM

Ia, ond dydy "bys gwyrdd fel pys slwtsh" neu "dannedd yn clecian yn ei phen fel castanets" ddim yn codi llond bol o ofn ar neb – mond llond bol o chwerthin!

Ond oes angen deud bod Catrin Jones yn 17 mlwydd oed, yn un o saith o blant o deulu tlawd, lleol?

JAC

Os nad yw e'n bwysig i'r stori, gad e mas.

MIRIAM

A phaid â *deud* ei bod hi'n oer, *dangosa* fo. Beth am "Crynodd Catrin ..."

CATH

Ow! Mae'n anobeithiol, dydy?

JAC

Nac ydy. Mae'r stori ei hun yn iawn, ond mae angen bod yn fwy cynnil gyda'r disgrifio.

CATH

Y?

JAC

Defnyddio llai o eiriau i ddweud yr un peth.

MIRIAM

Beth am gychwyn efo'r strwythur? Paid â neidio o "mae" i "roedd". Aros hefo amser gorffennol y ferf fyswn i.

CATH

O'r gorau! Be am hyn? "Crynai Catrin wrth gerdded drwy'r goedwig dywyll. Camodd yn betrusgar ar hyd y llwybr, a'r dail crin yn crensian yn uchel o dan ei thraed. Yn sydyn, clywodd sgrech erchyll, arallfydol."

JAC

Mae'r ansoddeiriau 'petrusgar', 'erchyll' ac 'arallfydol' yn helpu creu naws sbwci, on'd y'n nhw?

CATH

"Syllodd yn fud ar belydr o olau arian yn ymestyn fel llafn cylllell o'r awyr dywyll. Oerodd ei gwaed."

JAC

Oerodd ei gwaed – cynnil iawn, Cath. Tipyn gwell na "wnaeth ei gwaed hi oeri".

CATH

Taranai llais o gyfeiriad y golau:

JAC

"Cat, Cat, cama'n agosach."

Bitesize

CATH	“Gwyddai taw camgymeriad fyddai ufuddhau. O gornel ei llygaid, sylwodd ar dwmpath uchel o ddail. Rhedodd nerth ei thraed a neidio i ddiogelwch y guddfan glyd.”
JAC	Mae'r gymhariaeth 'na – “y golau'n ymestyn fel llafn cylllell” – yn effeithiol iawn.
MIRIAM	A'r idiom “rhedodd nerth ei thraed” yn ychwanegu at y tensiwn a'r cyffro.
CATH	Diolch – ond dwi ddim 'di gorffen eto. “A fyddai'n saff yma?”
MIRIAM	A'r diwedd glo'n ein cadw ni ar bigau'r drain, Cath! Da!
CATH	Waw, maen nhw'n ei licio hi!
CEFNDIR	(Cerddoriaeth a llais sbwci)
MIRIAM A CATH	Aaa! Jac!